| | |
|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br><br>Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd | National Assembly for Wales<br><br>Environment and Sustainability Committee |
| Dyfodol Ynni Craffach i Gymru? | A Smarter Energy Future for Wales? |
| Yr un ymateb gan nifer o ymatebwyr. (Cymraeg yn unig)<br><br>• Glyn Owen<br>• Nia Weaver<br>• G Williams<br>• Casia Wiliam | Identical response from numerous respondents. (Welsh only)<br><br>• Glyn Owen<br>• Nia Weaver<br>• G Williams<br>• Casia Wiliam |
| SEFW 01 | SEFW 01 |

Awst 2015

Annwyl Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd,

**Parthed: Ymgynghoriad - Dyfodol Ynni Craff i Gymru?**

Mae'n galondid gwybod bod Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru yn cynnal Ymchwiliad i 'Ddyfodol Ynni Craffach i Gymru'.

Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn ymlaen a byddai'n ein galluogi i wneud defnydd gwell o'r nifer o ffynonellau naturiol ar gyfer cynhyrchu'r digonedd o ynni sydd gennym yng Nghymru, sef gwynt, dŵr a'r haul. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod cymunedau yng Nghymru yn gallu meddu ar a chynhyrchu eu hynni eu hunain.

Yn y blynyddoedd diweddar yn yr Almaen mae eu strategaeth 'Energiewende' (trawsnewid ynni) wedi arwain at gefnogaeth drawsbleidiol wleidyddol tuag at dargedau gan gynnwys un am ostyngiad o 50% yn y defnydd o ynni sylfaenol erbyn 2050 ac un am sicrhau cyfradd o 80% o ynni adnewyddadwy o'r holl ynni a ddefnyddir erbyn 2050.

- Ar ddechrau 2012, roedd oddeutu 25% o bŵer yr Almaen yn cael ei gynhyrchu gan ffynonellau adnewyddadwy;
- Yn 2011, roedd dros 380,000 o bobl wedi'u cyflogi yn y diwydiant ffynonellau ynni adnewyddadwy;
- 13% yn unig o GW 60 yr Almaen o ynni adnewyddadwy sydd ym meddiant y cyfleustodau, gyda'r gweddill yn eiddo i gartrefi, cymunedau, a ffermwyr ymysg eraill.

Mae manteision Energiewende yn glir – mwy o berchnogaeth leol, mwy o swyddi, mwy o ddiogelwch o ran cyflenwad a chamau pendant i fynd i'r afael ag allyriadau hinsawdd newidiol gan ynni.

Yn awr rydym angen gweledigaeth glir ac uchelgeisiol i Gymru, ac ymrwymiad i gymeradwyo datblygiadau ynni dan arweiniad y gymuned ar raddfa nas gwelir o'r blaen.

Mae angen i ni newid y modd mae'r grid a'r systemau cyflenwi yn gweithredu yng Nghymru er mwyn rhoi blaenoriaeth i chwyldro ynni adnewyddadwy wedi'i arwain yn lleol, dan berchnogaeth leol ac wedi'i gyflenwi yn lleol.

Mae gweddnewid ynni yng Nghymru â'r gallu i greu nifer o swyddi newydd yng Nghymru, ac yn hanfodol mewn ardaloedd y mae angen gwirioneddol amdanynt. Mae cyflogaeth gynyddol yn yr Almaen ar draws pob lefel sgiliau – o dechnegwyr arbenigol iawn i weision fferm – wedi'u lledaenu'n ddaearyddol, yn eithriadol o ddefnyddiol i roi terfyn ar y dirywiad economaidd mewn mannau gwledig a'r ymfudiad i drefi a dinasoedd.

Mantais arall yn yr Almaen oedd ôl-ffitio cynlluniau tai cymdeithasol mawr gyda mesurau effeithlonrwydd ynni a systemau ynni adnewyddadwy a thrwy hynny lleihau costau biliau ynni neu eu dileu'n gyfan gwbl mewn adeiladau 'tŷ ynni goddefol' newydd.

Hoffwn ofyn i ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ynglŷn â 'Dyfodol Ynni Craffach i Gymru' ystyried y pwyntiau canlynol:

- Bod Llywodraeth Cymru'n gosod targed i leihau'r defnydd o ynni yng Nghymru.
- Bod Llywodraeth Cymru'n gosod targed ar gyfer ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru.
- Bod mynediad blaenoriaethol at y Grid Cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol.
- Bod rheolau'r farchnad ynni yng Nghymru'n cael eu newid er mwy caniatáu a blaenoriaethu cyflenwad ynni lleol er mwyn i bobl allu prynu trydan wedi'i gynhyrchu gan grwpiau ynni adnewyddadwy cymunedol yn rhatach o'i gymharu â'r cyfleustodau mawr. Mae hyn o bwysigrwydd arbennig i'r cymunedau hynny sy'n dioddef nifer uchel o dlodi tanwydd oherwydd bydd ganddynt y dewis o gyflenwadau lleol rhatach.

Diolch am y cyfle i fynegi fy marn i'r ymchwiliad hwn.

Yn gywir

[redacted] ..........................................

..........................................

....